

**\*\*DYLAI CYNGHORAU LAWRLWYTHO'R SET HON O WEFAN LLYWODRAETH  
CYMRU A'I HADDASU YN ÔL YR ANGEN\*\***

---

**IS-DDEDDFAU MODEL - SET 4**

---

***[Enw'r Cyngor]***

**IS-DDEDDFAU AR GYFER FFEIRIAU PLESER A RINCIAU  
SGLEFROLIO**

**TREFN YR IS-DDEDDFAU**

1. Dehongli
2. Cymhwyso
3. Rheoleiddio oriau agor
4. Rhoi rhybudd
5. Atal Tân, Mynd i Mewn ac Allan yn Ddiogel, Amodau glanweithdra, glendid, trefn a diogelwch y cyhoedd
6. Y Gosb
7. Amddiffyniad
8. Dirymu

Is-ddeddfau ar gyfer ffeiriau pleser a wnaed gan [*rhowch enw'r Cyngor*] o dan adran 75 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd 1961, fel y'u diwygiwyd gan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac adran 20 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

## Dehongli

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

ystyr “y Cyngor” yw [*rhowch enw'r Cyngor*];

ystyr “dyfais ddifyrrwch” yw reid yn y ffair, teclyn, adeiladwaith neu gyfarpar arall o'r fath megis stondin ddifyrrwch, sioe fechan, pabell, bwth neu adeiladwaith caeedig tebyg, sydd wedi eu gosod neu eu codi ac sy'n cael eu gweithredu er difyrrwch neu adloniant y cyhoedd mewn ffair bleser neu mewn cysylltiad â hi;

ystyr “dyfais ddifyrrwch sy'n cario pobl” yw dyfais ddifyrrwch a gafodd ei dylunio naill ai i ganiatáu i bobl fynd arni neu deithio arni mewn ceir neu gerbydau neu mewn ffordd arall, neu sy'n ddigon mawr iddynt fynd ar adeiladwaith y ddyfais neu i mewn i'r adeiladwaith;

ystyr “person sydd â rheolaeth dros unrhyw ddyfais ddifyrrwch” yw'r person sydd am y tro yn gweithredu neu'n rheoli dyfais ddifyrrwch benodol, p'un a yw'n berchennog neu'n rhyw berson arall;

ystyr “rinc sglefrolio” yw unrhyw le sydd am y tro yn cael ei ddefnyddio'n llwyr neu'n bennaf ar gyfer sglefrolio, ac y codir tâl am fynediad i'r lle hwnnw;

ystyr “rheolwr” yw'r person sydd â rheolaeth dros safle sy'n cael ei meddiannu at ddibenion ffair bleser, p'un a yw'n berchennog neu'n lesddeiliad neu'n rhyw berson arall;

ystyr “safle ffair bleser” yw'r man y mae'r ffair bleser yn ei feddiannu yn ei gyfanrwydd;

mae cyfeiriad at garafán, stand, stondin neu adeiladwaith yn gyfeiriad at garafán, stand, stondin neu adeiladwaith sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ffair bleser neu y bwriedir eu defnyddio ar gyfer ffair bleser neu mewn cysylltiad â hi, ac mae unrhyw drigfan ychwanegol sy'n cael ei gosod yn erbyn carafán neu'n gysylltiedig â hi i'w thrin fel rhan o'r garafán honno.

## Cymhwys

2. Nid yw'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i'r canlynol:

- (a) ffair bleser lle yr unig adloniant y mae adran 75 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd 1961 yn gymwys iddi yw alïau bowlïo deg neu alïau bowlïo deg

ynghyd â pheiriannau awtomatig sydd wedi eu bwriadu ar gyfer adloniant neu ddifyrrwch nad ydynt yn uwch eu nifer na thraean nifer yr aliau bowlio deg sy'n cael eu darparu; neu

- (b) unrhyw ran o ffair bleser y mae trwydded am y tro mewn grym mewn cysylltiad â hi ar gyfer cerddoriaeth gyhoeddus neu ddawnsio cyhoeddus neu adloniant tebyg arall; neu
- (c) unrhyw le nad yw'n cael ei ddefnyddio am y tro yn llwyr neu'n bennaf i ddarparu, p'un ai mewn cyfuniad ag unrhyw adloniant arall ai peidio, unrhyw adloniant y mae adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 yn gymwys iddo.

### **Rheoleiddio oriau agor**

- 3. (i) Rhaid i'r rheolwr beidio â chadw'r ffair bleser ar agor rhwng [*rhowch yr amser*] o'r gloch a [*rhowch yr amser*].
- (ii) Ar [*rhowch y diwrnodau, e.e. dydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc*], rhowch [*rhowch yr amser*] o'r gloch yn lle [*rhowch yr amser*].
- (iii) Caiff y Cyngor, drwy benderfyniad, amrywio'r oriau agor hyn mewn achosion penodol neu'n gyffredinol.

### **Rhoi rhybudd**

- 4. (i) Rhaid i'r rheolwr roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor o'r bwriad i gynnal ffair bleser o leiaf pum niwrnod gwaith ymlaen llaw, gan bennu'r dyddiadau a'r fan y mae'r ffair bleser honno i'w chynnal.
- (ii) Rhaid i'r rhybudd sydd i'w roi o dan yr is-ddeddf hon fod yn ychwanegol at unrhyw rybudd y mae'n ofynnol ei roi o dan unrhyw ddeddfiad arall ac nid yn lle unrhyw rybudd o'r fath.

### **Atal Tân, Mynd i Mewn ac Allan yn Ddiogel, amodau glanweithdra, glendid, trefn a diogelwch y cyhoedd**

- (i) Rhaid i'r rheolwr, er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, roi trefn ar safle'r ffair bleser er mwyn caniatáu mynediad digonol i beiriannau diffodd tân hyd at 50 o fetrau i unrhyw adeiladwaith. Rhaid i'r rheolwr sicrhau nad yw'r llwybrau mynediad fel arfer yn llai na 4 o fetrau o led, rhaid iddynt beidio â bod ag unrhyw rwystrau na cheblau uwchben sy'n llai na 4.5 o fetrau uwchben y ddaear, a rhaid i'r llwybrau hynny allu dal pwysau peiriannau diffodd tân (sef tua 12 tunnell) ym mhob tywydd, a rhaid cadw'r llwybrau argyfwng o fewn y safle yn rhydd rhag unrhyw rwystr ar bob adeg.
- (ii) Rhaid i'r rheolwr, er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, ddarparu nifer digonol o fynedfeydd i'r safle ac allanfeydd o'r safle, a rhaid i'r rheolwr sicrhau eu bod yn

cael eu cadw ar agor ac yn rhydd rhag unrhyw rwystr pan fydd y cyhoedd yn y fangre. (Nid oes angen cadw'r allanfeydd ar agor pan fo drysau neu gatiâu yn cael eu cloi gan folltiau braw addas neu ddyfeisiau diogelwch tebyg eraill sy'n galluogi agor y drysau ar unwaith o'r tu fewn.) Rhaid i'r rheolwr sicrhau na osodir bolltiau torri gwydr ar allanfeydd.

- (iii) Rhaid i'r rheolwr, er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, sicrhau bod nifer digonol o eiliau o led digonol rhwng y dyfeisiau difyrrwch, a sicrhau bod yr eiliau yn cael eu cadw yn rhydd rhag unrhyw rwystr.
  - (iv) Rhaid i'r rheolwr sicrhau nad yw mynediad at hydrantau tân a chyflenwadau dŵr eraill wedi ei rwystro na'i guddio.
  - (v) Rhaid i'r rheolwr ymgynghori â'r awdurdod tân ynghylch rhagofalon tân yn y ffair bleser a rhoi sylw dyledus i'w sylwadau; a rhaid i'r rheolwr ddarparu a chynnal a chadw'r cyfarpar diffodd tân a pha bynnag ddulliau o roi rhybudd tân y bo angen. Rhaid cadw'r offer diffodd tân mewn man gweladwy. Rhaid cadw'r offer diffodd tân mewn man sy'n hawdd dod o hyd iddo a rhaid i'r offer fod yn barod i'w ddefnyddio; a rhaid i'r rheolwr sicrhau bod yr holl bersonél a cynorthwywyr yn gwybod pa gamau i'w cymryd os ceir tân, gan gynnwys y gweithdrefnau gwacáu.
  - (vi) Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith ar gyfer galw'r frigâd dân, a rhaid i'r rheolwr sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hynny, ac yn gallu eu cyflawni.
- 5 Rhaid i'r rheolwr ddarparu arwyddion diogelwch tân i ddangos yn glir y llwybrau gadael mewn argyfwng o unrhyw ran o'r ffair bleser y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddi.
  - 6 Rhaid i'r rheolwr sicrhau y darperir goleuadau arferol a goleuadau argyfwng ym mhob ran o'r ffair bleser y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt a'r holl ffyrdd ymadael allanol, a rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y goleuadau hynny yn gallu darparu goleuni digonol yn y manau hynny er mwyn i bob person sy'n defnyddio'r fangre adael yn ddiogel.
  - 7 Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod unrhyw gyfarpar sy'n cynhyrchu gwres wedi ei ddiogelu'n briodol, ac wedi ei osod yn sOWNd gan rwystro, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, unrhyw ymyrraeth gan bobl nad oes ganddynt awdurdod.
  8. Rhaid i berson sydd â rheolaeth dros unrhyw ddyfais ddifyrrwch mewn ffair bleser ddarparu, er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, allanfeydd digonol, ac os oes stondinau neu adeiladwaith dros dro eraill neu fannau eistedd o fewn y ddyfais ddifyrrwch, rhaid iddo sicrhau bod nifer digonol o eiliau o led digonol wedi eu darparu.
  9. Rhaid i berson sydd â rheolaeth dros unrhyw ddyfais ddifyrrwch mewn ffair bleser, tra bod y cyhoedd yn bresennol, gadw'r allanfeydd a'r eiliau hynny heb eu

cloi ac yn rhydd rhag rhwystr, a rhaid sicrhau bod arwyddion allanfeydd yn cael eu harddangos.

10. Rhaid i berson sydd â rheolaeth dros unrhyw ddyfais ddifyrrwch mewn ffair bleser lle y mae mannau eistedd i fwy na 30 o bobl yn cael eu darparu sicrhau bod y seddau a'r eiliau yn sownd ac wedi eu trefnu er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, a sicrhau:
  - (i) bod y seddau a'r eiliau yn caniatáu mynediad rhydd a pharod yn uniongyrchol i allanfa'r ddyfais ddifyrrwch;
  - (ii) bod pob sedd yn sownd yn ei lle neu'n dynn wrth ei gilydd mewn rhesi heblaw pan fo cadeiriau yn cael eu rhoi mewn blychau neu mewn mannau caeedig ar wahân; a
  - (iii) bod digon o eiliau i alluogi pobl i fynd allan o'r ddyfais ddifyrrwch yn ddiogel.
11. Rhaid i reolwr ffair bleser, pan na fo cyfleusterau glanweithdra digonol ar gael eisoes o fewn pellter rhesymol i bob rhan o ffair bleser o'r fath:
  - (a) darparu cyfleusterau glanweithdra digonol ac addas ar gyfer y cyhoedd sy'n dod i'r ffair bleser;
  - (b) labelu cyfleusterau ar wahân i ddynion a menywod yn ôl y gyfran briodol;
  - (c) cynnal a chadw'r cyfleusterau mewn cyflwr da ac mewn cyflwr glân ac iachus; a
  - (d) sicrhau bod y cyfleusterau a'r labeli a ddarperir yn unol â'r is-ddeddf hon yn cael eu goleuo'n ddigonol pan fo'n dywyll tra bod y cyhoedd yn y ffair bleser.
12. Rhaid i berson sy'n meddiannu unrhyw ran o ffair bleser, mewn perthynas â'r rhan honno, a rhaid i'r rheolwr, mewn perthynas ag unrhyw ran o'r fangre nad yw wedi ei meddiannu gan unrhyw berson arall:
  - (a) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol achosi i'r rhan honno gael ei chadw mewn cyflwr glân; a
  - (b) cyn amled ag y bo angen, achosi i unrhyw wastraff neu sbwriel o fewn y rhan honno i gael ei gasglu a'i roi mewn bin priodol.
13. Rhaid i'r rheolwr achosi i'r holl wastraff a sbwriel gael ei gasglu yn fynych o'r holl finiau sy'n cael eu cynnal yn unol â'r is-ddeddf uchod a chael ei symud ymaith i fan lle na fydd yn achosi perygl na niwsans.

14. Rhaid i'r rheolwr sicrhau:
- (a) bod yr holl laswellt a'r llystyfiant o gwmpas y dyfeisiau difyrrwch, y cerbydau, yr ôl-gerbydau, y carafanau ac unrhyw adeiladwaith arall wedi ei dorri a bod unrhyw doriadau wedi eu symud ymaith; a
  - (b) nad yw'r manau o dan a rhwng y dyfeisiau difyrrwch, y cerbydau, yr ôl-gerbydau a'r carafanau yn cael eu defnyddio i storio deunyddiau hylosg.
15. Wrth ymadael â'r safle neu unrhyw ran o'r safle y cafodd ffair bleser ei chynnal arno, rhaid i'r rheolwr symud oddi yno neu drefnu i rywun symud unrhyw wastraff neu sbwriel sy'n dal i fod yno, gan adael y safle mewn cyflwr glân a thaclus.
16. Rhaid i bawb sydd â charafán o dan ei reolaeth sicrhau ei bod wedi ei gosod yn y fath safle sy'n sicrhau bod digon o le rhyngddi ac unrhyw garafán arall neu adeiladwaith arall er mwyn gadael ffordd i ddianc os bydd tân.

### **Y Gosb**

17. Mae unrhyw berson sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

### **Amddiffyniad**

18. Mae'n amddiffyniad i berson brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni tramgwydd o dan yr is-ddeddfau hyn.

### **Dirymu**

19. Mae'r is-ddeddfau ar gyfer ffeiriau pleser a wnaed gan [*rhowch enw'r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau blaenorol*] ar [*rhowch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn*] ac a gadarnhawyd ar [*rhowch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn*] gan [*rhowch enw'r awdurdod cadarnhau*] wedi eu dirymu.